| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **12 Medi 2024** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Cynghorydd Gwyneth Ellis (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) / Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Bryn Williams (Rheolwr Asedau)** |
| **Teitl** | **Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli Asedau arfaethedig ar gyfer 2024 – 2029 (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Asedau a adolygwyd ac a ddiweddarwyd i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried cyn ei chyflwyno i'r Cabinet i wneud penderfyniad ynglŷn â'i mabwysiadu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Rheoli Asedau arfaethedig ar gyfer 2024 – 2029 (Atodiad 1) a darparu unrhyw adborth.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mabwysiadwyd y Strategaeth Rheoli Asedau gyfredol gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2017 gydag adolygiad ar ôl 5 mlynedd - 2021. O ganlyniad, mae angen Strategaeth Rheoli Asedau ddiwygiedig ac mae effaith y pandemig ar flaenoriaethau a rhaglenni gwaith wedi arwain at rywfaint o oedi.

4.2 Mae’r Strategaeth Rheoli Asedau 2024-2029 arfaethedig wedi’i atodi fel Atodiad 1.

4.3 Mae’r Strategaeth Rheoli Asedau newydd wedi ceisio alinio cynlluniau asedau a’r deilliannau a geisir gan y Strategaeth gyda Themâu Strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol, gan sicrhau bod ein hasedau eiddo yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni’r blaenoriaethau hyn. Ar gyfer y strategaeth hon, rydym yn cynnig bod deilliant cyntaf a addaswyd rhywfaint o strategaeth 2017-2021 yn dod yn egwyddor sylfaenol o ran penderfyniadau a wnawn am ein portffolio eiddo. Mae hynny fel a ganlyn: ***Byddwn yn darparu’r asedau cywir, yn y lle cywir, ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion darparu gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol, gan ystyried pwy sydd orau i fod yn berchen a gweithredu bob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.***

4.4 Mae’r pedwar deilliant canlynol wedi eu nodi fel blaenoriaethau yn Strategaeth Rheoli Asedau 2024-2029 gan alinio gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor:

- **Gweithredu Hinsawdd ac Adfer Natur** - a fyddai’n cynnwys gwella perfformiad ynni adeiladau, gostwng ôl-troed cyffredinol adeiladu, hwyluso llai o deithio, cynyddu dal carbon o eiddo cyfredol ac eiddo newydd, gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd, etc. Yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth o, a gwella, gwytnwch ein hasedau yn erbyn effaith hinsawdd.
- **Moderneiddio Addysg** - a gyflawnir yn bennaf gan Addysg ond bydd yn golygu buddsoddi sylweddol yn ein hadeiladau ysgol dros y bum mlynedd nesaf.
- **Adfywio** - ble mae’r Cyngor yn ymyrryd yn uniongyrchol yn y farchnad eiddo i hyrwyddo adfywio a datblygu economaidd, yn arbennig yng nghanol trefi.
- **Ffyrdd Newydd o Weithio a Chydweithio** - yn edrych yn benodol ar ein portffolio swyddfeydd a sut mae angen i hwn newid o ystyried cynnydd sylweddol mewn gweithio o gartref (ar ôl COVID), ynghyd â datblygu cyfleoedd i gydweithio i greu perchnogaeth asedau a model gweithredu sy’n gynaliadwy.

4.5 Bydd cyflawni’r deilliannau a amlinellir yn y strategaeth hon yn ddibynnol ar sicrhau’r cyllid angenrheidiol, trwy ddefnyddio cyfleoedd i gael cyllid allanol a blaenoriaethu’r adnodd cyfyngedig sydd gennym fel Cyngor.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae’r strategaeth hon yn cefnogi Thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd y Cynllun Corfforaethol, gan y bydd gwell rheolaeth ynni a’r posibilrwydd o greu mwy o ynni adnewyddadwy o fewn y portffolio cyfan yn helpu’r Cyngor i gyrraedd ei darged o ddod yn Ddi-garbon Net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

5.2. Mae’r strategaeth hefyd yn cefnogi’r thema Sir Ddinbych Ffyniannus gan fod gan ein portffolios asedau y potensial o wella ffyniant economaidd os gellir defnyddio swyddfeydd fel llety ar gyfer busnesau bach neu eu gwaredu er enghraifft.

5.3. Mae’r strategaeth yn cefnogi’r Thema Sir Ddinbych sy’n Dysgu ac yn Tyfu trwy gefnogi creu cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu trwy gefnogi adeiladu newydd a gwaith adnewyddu sylweddol ar yr ystâd ysgolion.

5.4. Mae’r egwyddor sylfaenol o ‘adeiladau cywir, yn y lle cywir’ hefyd yn cefnogi’r Thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad y Cynllun Corfforaethol - gan ddefnyddio asedau i gefnogi gweithio’n hyblyg a gweithio mewn partneriaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae’r strategaeth wedi ei datblygu’n fewnol ac ni fu unrhyw gostau ychwanegol i’r Cyngor. Yn amlwg, mae cost fel arfer yn gysylltiedig â phenderfyniadau a wneir ynglŷn ag eiddo. Bydd cyflawni’r deilliannau a amlinellir yn y strategaeth hon yn ddibynnol ar sicrhau’r cyllid angenrheidiol, trwy ddefnyddio cyfleoedd i gael cyllid allanol a blaenoriaethu’r adnodd cyfyngedig sydd gennym fel Cyngor.

6.2. Gwneir pob penderfyniad eiddo trwy ddulliau sy’n bodoli, gan gynnwys y Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Craffu Cyfalaf, y Cabinet, etc., i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a’u craffu’n briodol.

6.3. Effeithir ar bob gwasanaeth, gan fod bob gwasanaeth yn defnyddio ac yn meddiannu eiddo. Byddwn bob amser yn ymgynghori â gwasanaethau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau eiddo a fydd yn effeithio arnynt neu sut maent yn darparu eu gwasanaethau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae canlyniad cyffredinol yr Asesiad o Effaith ar Les yn gadarnhaol (atodiad 2). Roedd y sgôr ar gyfer cynaliadwyedd y dull yn 3 allan o 4 seren  Aseswyd cyfraniad i 6 allan o 7 nod lles fel cadarnhaol ac aseswyd un fel niwtral (Sir Ddinbych Mwy Cyfartal). Gellir adolygu'r Asesiad o Effaith ar Les ymhellach os ceir unrhyw adborth yn y Pwyllgor Craffu.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ar lefel swyddogion trwy'r amrywiol Gynlluniau Portffolio, sy'n grwpio tir ac adeiladau gyda mathau tebyg o eiddo, yn hytrach na llinellau gwasanaethau. Datblygwyd y Cynlluniau Portffolio hyn trwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda sawl swyddog o'r Cyngor sydd un ai'n meddiannu neu'n rheoli tir neu adeiladau yn y portffolio, a thrwy ddadansoddi rhai mesuryddion perfformiad sy'n ymwneud â'r eiddo.

8.2. Cafodd y Strategaeth ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn Ebrill ble cafodd ei derbyn gyda diwygiadau. Mae'r Strategaeth wedi ei rhannu gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gael sylw ehangach. Ystyriwyd y Strategaeth yn y Grŵp Rheoli Asedau ar 1 Mai ble cafodd ei dderbyn gyda diwygiadau. Mae'r Aelod Arweiniol wedi ei hysbysu ac wedi cyfrannu at y strategaeth ddrafft ynghyd â'r Cabinet ehangach trwy sesiwn briffio.

8.3. Ymgynghorwyd â'r Landlord Corfforaethol a rhoddodd y datganiad isod: *Mae eiddo'n cynrychioli gwariant uwch ac atebolrwydd cynhyrchu carbon ar gyfer y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'n adnodd strategol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ac felly mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn ddogfen strategol graidd a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Sir Ddinbych yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y Strategaeth Rheoli Asedau yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei asedau'n effeithlon ac yn gynaliadwy a bydd angen ei chraffu a'i diweddaru'n rheolaidd wrth i wybodaeth berthnasol ddod ar gael trwy'r Cynlluniau Portffolio.*

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 O ystyried cyfyngiadau ariannol y Cyngor nawr ac yn y tymor canolig mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gwneud y mwyaf o werth ac effeithlonrwydd asedau y mae'n berchen arnynt ac yn eu defnyddio. Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn nodi'r angen, yn blaenoriaethu adnoddau cyfyngedig, defnyddio cyfleoedd i gael cyllid allanol ble fo'n bosib, ystyried effaith ffyrdd newydd o weithio ar ein hasedau a datblygu cyfleoedd i gydweithio ble fo'n bosib.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â datblygu a mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11.2 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi.